**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 28 AWST 2024 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd) trwy MS Teams; Dianne Bevan trwy MS Teams; Frank Cuthbert trwy MS Teams a Ginger Wiegand trwy MS Teams.

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Prif Weithredwr; Tom Jenkins; Rheolwr Cyllid; Rheolwr Arolygon a Swyddog Cymorth Tîm.

**Ymddiheuriadau:** Michael Imperato a Cynrychiolydd o Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Amser dechrau: 10:00**
**Amser gorffen: 11:06**

**1. Datganiadau Buddiannau**

**1.1.** Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

**2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd**

**2.1.** Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Comisiwn am y cyfarfod yr wythnos ddiwethaf gyda Lisa James o Lywodraeth Cymru. **Nodwyd** mai 5 Medi oedd y dyddiad disgwyliedig ar gyfer Cydsyniad Brenhinol ar gyfer yr 2il Fil.

**2.2.** Mae'n debygol y bydd ad-drefnu'r Cabinet yn digwydd yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 9 Medi, felly mae'n annhebygol y bydd unrhyw benderfyniadau yn ymwneud ag arolygon yn digwydd nes bydd y trefniadau hynny wedi'u cadarnhau.

**2.3.** Cafwyd cadarnhad hefyd y disgwylir i'r newid i'r adran noddi ddigwydd dros yr ychydig fisoedd nesaf ac nad Lisa James fydd arweinydd y noddwr bellach. Wedi i'r Comisiwn symud i Barc Cathays, gwneir trefniadau i gynnal cinio gwerthfawrogiad ar gyfer Lisa a'i thîm.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn ar gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2024**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2024 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân newidiadau.

**4. Materion yn Codi**

4.1. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd cyfredol ar y materion canlynol:

4.2. **(Mater 1) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cael 0 cais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 24 Gorffennaf 2024 ac 20 Awst 2024.

4.3. **(Mater 2) Nodwyd** bod y Comisiwn yn cynnal Arolygon Cymunedol ar gyfer Ceredigion, Abertawe a Sir Benfro ar hyn o bryd. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys mewn eitem agenda ar wahân.

4.4. **(Mater 3) Nodwyd** bod y brydles wedi dod i law a bod y contractwyr wedi cynnal ymweliad cychwynnol â Thŷ Hastings i gynllunio ar gyfer adleoli dodrefn yr ystafell gynadledda. Mae dyddiad wedi'i drefnu gyda BT i waith gael ei gyflawni yng nghanol mis Medi ac mae'r Comisiwn yn cynllunio i'r symud ffisegol ddechrau ar 23 Medi 2024. Bydd holl gyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal ar-lein hyd nes y clywir yn wahanol.

4.5. **(Mater 4) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cael cwyn swyddogol yn ymwneud ag arolwg Bro Morgannwg. Ymatebwyd i'r achwynydd. Mae LIC wedi rhoi gwybod i'r Comisiwn ei bod hefyd wedi cael cwyn yn ymwneud â'r arolwg a'i bod wedi ymateb i'r achwynydd.

4.6. **(Mater 5) Nodwyd** bod Pwyllgor Tai a Llywodraeth Leol Senedd Cymru yn cynnal ymchwiliad i rôl, llywodraethu ac atebolrwydd y sector cynghorau cymuned a thref. Cylch gorchwyl yr ymchwiliad yw archwilio:

- Rôl a gwerth cynghorau cymuned a thref yng Nghymru;
- A yw'r sector yn addas i'r diben mewn tirwedd llywodraeth leol sy'n esblygu;
- Trefniadau llywodraethu a chraffu a'u heffaith ar atebolrwydd a thryloywder;
- Cwmpas technoleg ddigidol a thechnoleg newydd i wella prosesau penderfynu, darparu gwasanaethau a chyfranogiad mewn prosesau democrataidd lleol;
- Sut caiff pwerau a chyfrifoldebau newydd ar gyfer yr haen hon o lywodraeth eu defnyddio i gefnogi cymunedau.

Gwahoddwyd y Comisiwn i gyflwyno tystiolaeth a bydd yn paratoi ymateb.

## 5. Y Rhaglen Bontio (i'w thrafod)

**5.1.** **Nodwyd** bod y Comisiwn yn aros am Gydsyniad Brenhinol ar gyfer Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Nodwyd hefyd, yn ystod cyfarfod y Prif Weithredwr â LIC, y bydd y dyddiad dechrau ar gyfer y Bwrdd Rheoli Etholiadol a GAAC ym mis Ionawr, felly bydd recriwtio ar gyfer cadeirydd annibynnol GAAC yn digwydd cyn hynny.

## 6. Y Flaenraglen Waith

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar y Flaenraglen Waith dyddiedig 21 Awst 2024 gan y Prif Weithredwr.

**6.2.** **Nodwyd** bod ymarfer llunio rhestr fer wedi'i gynnal yn gysylltiedig â recriwtio Comisiynwyr. Gwahoddwyd 4 ymgeisydd (2 ohonynt sydd â phrofiad Swyddog Arolygon) am gyfweliad.

**6.3.** **Nodwyd** y bydd yr ymarfer recriwtio ar gyfer Pennaeth Iechyd Democrataidd yn fyw ddiwedd mis Awst. Bydd y swydd yn cael ei hysbysebu ar wefannau Swyddi'r Gwasanaethau Sifil ac AEA.

**6.4.** **Nodwyd** bod Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn aros am Gydsyniad Brenhinol o hyd.

## 7. Adroddiad ar Gyllideb 2024-25

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Monitro'r Gyllideb dyddiedig 28 Awst 2024 gan y Rheolwr Cyllid, a oedd yn dangos sefyllfa'r gyllideb hyd at ddiwedd mis Gorffennaf 2024.

**7.2.** **Nodwyd** y gwnaed newidiadau i gategorïau'r gyllideb i fynd i'r afael â'r tanwariant canlynol:

- Llogi Ystafelloedd / Dehongli (13) wedi cynyddu £200 o £0 i £200

  Bodlonwyd y cynnydd uchod trwy leihau'r gyllideb ganlynol:

- Hyfforddiant Staff (8) wedi gostwng £200 o £15,600 i £15,400.

**7.3.** **Nodwyd** mai sefyllfa cyllideb y Comisiwn ar ddiwedd mis Gorffennaf oedd £40,766. Roedd hyn oherwydd cyflogau staff, ond dylid **nodi** y bydd codiad cyflog i staff yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ynghyd â'r posibilrwydd o recriwtio aelod staff ychwanegol. Ar ben hynny, o fis Gorffennaf ymlaen, ni fydd y Comisiwn yn cael ad-daliad ar gyfer costau'r aelod staff sydd ar secondiad i Lywodraeth Cymru mwyach. **Nodwyd** bod tanwariant o £3,849 yn y gyllideb gyfreithiol hefyd oherwydd y gofynion cyfyngedig am gyngor cyfreithiol ym mis Ebrill a mis Gorffennaf 2024. Bydd gofynion sylweddol am gyngor cyfreithiol yn

ddiweddarach yn y flwyddyn ar gyfer Polisi ac Arfer wrth baratoi ar gyfer y rhaglen nesaf o arolygon etholiadol.

**7.4.** **Nodwyd** bod gwariant cyffredinol y Comisiwn hyd at ddiwedd mis Gorffennaf 2024 ar sail arian parod ac adnoddau ymhell o fewn o gyllideb, gyda thanwariant arian parod o £36,946.

## 8. Rheoli Risg

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg CDFfC dyddiedig 18 Awst 2024.

**8.2.** **Nodwyd** a **chytunwyd** ar y Gofrestr Risg gan y Comisiwn.

## 9. Cofrestr Risg Blaenraglen Waith CDFfC

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg Blaenraglen Waith CDFfC dyddiedig 16 Awst 2024.

**9.2.** **Nodwyd** a **chytunwyd** ar Gofrestr Risg y Flaenraglen Waith gan y Comisiwn.

## 10. Effeithiolrwydd y Bwrdd

**10.1.** Ystyriwyd Adroddiad Llywodraethu ac Effeithiolrwydd Bwrdd CDFfC dyddiedig 20 Awst 2024.

**10.2.** **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi nodi camau gweithredu allweddol o Gam Un Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r angen am hyfforddiant sefydlu strwythuredig ar gyfer adolygu perfformiad. Byddai hyn yn gweithredu fel cyflwyniad i aelodau newydd ar beth yw swyddogaethau'r Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai adolygiad o holiadur effeithiolrwydd y bwrdd yn cael ei roi ar waith.

**10.3.** **Cytunwyd** y byddai asesiad allanol o strwythur y Comisiwn yn cael ei ohirio tan haf 2025, gan y bydd aelodau newydd o'r bwrdd a chwe mis o'r Bwrdd Rheoli Etholiadol er mwyn cael asesiad mwy trylwyr.

**Gweithredu:** Rhaglen sefydlu strwythuredig a rhaglen hyfforddiant yn y dyfodol i Gomisiynwyr.

**Gweithredu:** Adolygiad o holiadur effeithiolrwydd y bwrdd.

**11. Adroddiad Cynnydd Arolygon**

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon dyddiedig 21 Awst 2024.

**11.2.** **Nodwyd** bod Adroddiad Argymhellion Terfynol Ceredigion wedi'i ystyried a'i fod yn mynd drwy'r broses sicrhau ansawdd.

**11.3.** **Nodwyd** bod Adroddiad Argymhellion Terfynol Abertawe wedi'i ystyried. Cytunwyd ar yr Opsiynau Terfynol yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

**11.4.** **Nodwyd** y bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer Cynigion Drafft Sir Benfro yn dod i ben ar 2 Medi 2024.

**11.5.** **Nodwyd** y bydd yr Adroddiad Cynigion Cychwynnol yn cael ei gyhoeddi a'r cyfnod ymgynghori'n dechrau ar 3 Medi ac yn cael ei gynnal hyd at 30 Medi. Bydd y Comisiwn yn ystyried ei opsiynau diwygiedig mewn cyfarfod ym mis Hydref.

**12. Arolwg Cymunedol Abertawe – Adroddiad Terfynol**

**12.1.** Ystyriwyd papur Arolwg Cymunedol Abertawe – Opsiynau Terfynol dyddiedig 21 Awst gan y Swyddog Arolygon.

**12.2.** **Nodwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi erbyn canol i ddiwedd mis Hydref.

**12.3.** **Cytunwyd** bod y Comisiwn wedi gwneud penderfyniadau ar enwau'r wardiau canlynol:

- Bôn-y-maen
- Knelston
- Llanmadog

**13. Arolwg Cymunedol Ceredigion – Opsiynau Terfynol**

**13.1.** Ystyriwyd papur Arolwg Cymunedol Ceredigion – Opsiynau Terfynol dyddiedig 21 Awst 2024 gan y Swyddog Arolygon.

**13.2.** **Cytunwyd** bod y Comisiwn wedi gwneud penderfyniad ar enw ward Ceulan a Maesmawr.

**13.3.** **Cytunwyd** wrth symud ymlaen ag arolygon cymunedol yn y dyfodol, y gellir defnyddio Ceredigion fel enghraifft o wersi a ddysgwyd.

**13.4.** **Nodwyd** y byddai adroddiad Ceredigion yn cael ei gyhoeddi ganol i ddiwedd mis Hydref.

## 14. Calendr Digwyddiadau

**14.1.** Ystyriwyd y Calendr Digwyddiadau.

**14.2.** **Nodwyd** y bydd cyfarfodydd rhithwir yn cael eu hanfon ar gyfer y cyfarfod nesaf oherwydd symud llety a thaenlen argaeledd ar gyfer y Comisiynwyr.

## 15. Unrhyw fater perthnasol arall

**18.1** Ni nodwyd unrhyw fater perthnasol arall.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 25 Medi 2024